

P R E G E T H

A R

HELYNT BRESENNOL

A M E R I C A.

A Bregethwyd yn CHRIST-CHURCH,

MEHEPIN Y 23, 1775.

Ar ddeisfyd Swyddogion y DRYDYDD
FYDDIN o Ddinas *Philadelphia*, a Rhag-
lawiaeth *Southwark*.

Gan WILLIAM SMITH, D. D.

PENADUR Y COLEG YN Y DDINAS HONNO.

B R Y S T O:

Argraffwyd gan WILLIAM PINE, 1775.

PHILADELPHIA, Mehefin y 25, 1775.


ME W N Cyfarfod Swyddogion y
3dd. Fyddin o Ddinas Philadelphia a
rhaglawiaeth Southwark — *Cytunwyd* i
ddiolch i Dr. Smith am ei bregeth ragorol
a bregethodd ar eu deisyfiad y 23en o'r
mis hwn; a dymuno arno ddarparu
copi o honi iw chyhoeddi; gan eu bod
hwy 'n barnu y bydd yn foddion i
helaethu achos rhydd-did a rhinwedd.

Arwyddwyd drwy orchymyn,

JOAN CADWALADR, * Milwriad.

* *Colonel.*

A 2



*From the gift of
Prof. F. N. Robinson*

Y Cyfieithydd at y Darllynydd.

Gymro anwyl,

GAN fod yr Anghyd fod annedwydd rhwng Brydain a'i Threfedigion yn gwneuthur y fath fwn a chynnwrf yn ein gwlaid, mi a anturiaris gyfaithu y bregeth ganlynol, yr hon a bregethwyd ar yr achos, fel y gellit ti weled a deall natur a Ddadl, a gwreiddyn yr anghyafod. A chan iddi gael ei phregethu o flaen, nid yn unig Swyddogion y Fyddin a grybwyllir yn y ddalen ditl, ond hefyd cynnyrcholwyr y Taleithau unol, ac eraill o'u Penaethiaid, gelli yma weled hefyd yn lled amlwg, ysbryd a thymmer y Trefedigion yn eu sefyllfa gyfng bresennol.

Mae 'r Awdur yn ei ragymadrodd yn d'wediid—
“nas casodd ond rhybudd byrr i fyfyr i fatter,
ac nad oedd ganddo un amcan i gyhoeddi—
fod hiraeth yn ei galon am weled etto 'r tawel
ddyddiau o heddychlondeb rhwng Brydain a'i Threfedigion—Eu bod yn cael cam mawr pan eu
cyhyddir o chwennych bod yn llywodraeth neillduol
—Mae 'r cwbl y maent yn geisio yw cynnal y Siartrau (charters) a genneattaodd Lloegr iddynt
ar y cyntaf 'yngyd a'r hefymol rydd-did o gael
eu trethu trwy eu cydysyniad—Fod digon eisoes

wedi ei wneithur mewn ffordd o brawf nad yn
esmwyth y rhydd pobl America i fynu eu breintiau
—Ei bod yn bryd i gymeryd i fynu a derbyn rhyw
drefn gymmwys tuag at attal y canlyniadau alaethus
a raid ddigwydd wrth ymdrin a'r ddadl mewn
ffordd ryfelgar. Pe gwelai hyn yn cymmeryd lle,
mae 'n dweid hefyd y byddai yn barod i ganu 'n
iach i bob peth daearol.”

*Yn awr, Gymro hawddgar, cofia y daw terfyn
ar bob cynnwryf yma, ac mae 'th ddyledswydd di
yw gweddio am lwyddiant a heddwch y Deyrnas :
etlo cofia 'n bennaf fod mewn heddwch a Duw,
trwy Grist; yna y bydd hi da gyd a thi pe treighid
y mynyddoedd i ganol y mor. Ond 'f alle fod dy
galon yn crynu am Eglwys Dduw: Cofia ei fod
ef yn eistedd ar y llifseiriant, Sal. xxix. 10.—
Caiff pob peth gydweithio er ei daeoni.—Gweddia
dros seion, ac nac anghofia 'th Ewyllifwr da
ymhob peth yn enwedig achos dy Enaid. Y
Cyfeithydd.*

BRYSTO, Hydref y¹

21, 1775.

T. & J. N. Robinson

P R E G E T H, &c.

JOSUA xxii. 22.

Arglwydd Dduw y duwiau—Arglwydd Dduw y duwiau—Efe fydd yn gwybod ac Israel yntef a gaiff wybod—Os mewn gwrthryfel neu mewn camwedd yn erbyn yr Arglwydd y bu hyn—Na wareder ni y dydd hwn.

Y Geiriau hyn, fy Mrodyr, a'n tywyfiant i amrywiol ystyriaethau llwyr berthynol i amcan ein cyfarfod presennol; a rhaid im'attolygu 'ch cyd-ddygiad tra'r eglurwyf mor fyrr ag y gallaf yr achos pwysfawr ar ba un y cawsant gyntaf eu llefaru; a gobethio y bydd i'r cymmwysiad a wnelwyf yn ganlynol o honynyt gyflawn obrwyo 'ch astudrwydd.

Meibion Reuben, a Meibion, Gad a hanner llwyth Manasseh, a ddewisafant eu hetifeddiaeth y tu dwyraint i'r Jorddonen, ar gyfer y llell o lwythau Israel. Ac er y gwyddent y byddai i'r sefyllfa hon eu difuddio o rai breintiau arhosol gyd a'u brodyr o'r tu arall, ac yn neillduol y fraint arbennig o gael Allor a Phabell Duw yn eu plith; eto, gan fod gwlad Canaan yn cael ei chyfrif n rhwng gyfyng i'r holl lwythau boddlonafant i'r

etifeddiaeth a ddewisasant. Ac fel hyn y llafarasant wrth Moses, "Tir i Anifeilaid yw " efe, ac y mae i'th weision Anifeiliaid lawer. O's " cawsom ffafyr yn dy olwg rhodder y tir hwn i'th " weision yn feddiant, a chorlannau defaid a " adeiliadwn ni yma i'n hanifeiliaid, a dinafoedd " i'n plant; a ni a ymarfogwn yn fuan a flaen ein " brodyr Meibion Isr-el—ni ddychwelwn ni " i'n tai nes iddynt berch'nogi bob un ei " etifeddiaeth."

" A dywedodd Moses wrthynt, os gwnewch y " peth hyn, os a pob un o honoch dros yr " Jorddonen yn arfog o flaen yr Arglwydd nes " iddo yrru ymaeth ei elynion o'i flaen, a " darostwng y wlad (Canaan) o flaen (eich brodyr) " yna gwedi hynny y cewch ddychwelyd, a bydd " y tir hwn (Gilead) yn etifeddiaeth i chwi " o flaen yr Arglwydd."*

Dyma, ynte, yr Ammod fawr wreiddiol, dan ba un y cenniatiawyd i'r ddau lwyth a hanner ymneillduo oddiwrth y lleill, a phreswyliau y tu arall i'r Jorddonen. Yr oeddynt i gynnorthwyo 'u brodyr yn eu rhyfeloedd angenrheidiol—i barhau dan yr un llywodraeth a hwythau, sef llywodraeth Jehofa ei hun—i beidio adeiliadu un Allor wahanol, ond dyfod i Aberthu wrth yr Allor honno yn Silo, lle y gweodd yr Arglwydd yn dda i addo ei bresennoldeb neillduol.

Er i hyn eu darostwng i lawer anghyfleusdra, eto gan fod unffurfiad eu haddoliad, a natur eu †dwyfol lywodraeth yn am galw un dano, hwy a lynamant yn ffyddlon wrth eu hammod.

Yn ofn Duw ymgrymasant wrth ei Allor er nad oedd o fewn eu gwlad hwy; ac o gariad at eu brodyr cynnorthwyasant hwynt yn eu rhyfeloedd " hyd nas safodd un o'u gelynion o'u blaen :" Ac o'r diwedd eu blaenor mawr *Josua*, gan nad oedd raid wrth eu cynnorthwy ymhellach, a rodde iddynt y dystiolaeth anrhydeddus hon—ddarfod iddynt

* Numeri, Pen. 32.

† Theocracy.

iddynt ufuddhau iddo ef ymhob peth fel eu twyslog, a chyflawnu 'n ffyddlon y cwbl a addawlent i Foses gwâs yr Arglwydd. Gan hynny efe a'u bendithiodd ac a'u gollyngodd i ddychtwelyd iw gwlad eu hun " a chyfoethi mawr " ac anifeiliaid lawet iawn, âg arian ac âg aur, ac " â gwisgoedd lawer iawn." *

Mor ebrwydd, gan hynny, ag y daethant i'w gwlad, yn llawn diolchgarwch, at llawn y Jorddonen, wrth y rhydle gyffredin, gyferbyn a Chataan, hwy a adeiliadasant Allorfaur ac Uchel, fel y byddai yn arwydd tragwyddol eu bod o'r un genedl, ac a hawl ganddynt i'r un breithiau gwledig a chrefyddol a'u brodyr o'r llwythau eraill.

Ond y gorchwyl hwn o dduwioldeb a chariad a gadd yn ebrwydd ei gamddeall. Codwyd y waedd yn eu herbyn yn ddiatureg. Ni phetrusodd Penboethiaid y dydd hwnnw eu cyhoeddi 'n writhryfelwr yn erbyn y Duw byw, yn drofeddwyr ei sanctaidd gyfreithiau, a'i lywodraeth osodedig, trwy osod i fynu Allor yn wrthwyneb i'w allor sanctaidd ef! Gan hynny holl gyn'lleidfa 'r brawd-lwythau, y rhai yr oedd eu harosfa yng Nghhanaan a ymgalglasant ynglyd i ryfel yn erbyn eu cig a'u gwaed eu bunain; ac mewn ffam o fel gamfyniol bwriadasaunt eu dileu oddi ar wyneb y ddaear, fel gelynion i Dduw ac i Wladwriaeth Israel. Yn y foment arwydus a nodedig honno, (ac o fy Nuw na chaffai 'r siAMPL ei dilyni ymysg brawdlwythau ein Hysrael nii yn y fam-wlad) meddaf, yn y foment arwydus a nodedig honno ymddangosodd rhai yn eu mysg o dymherau mwy llariaidd a hynaws, sei pa rai nis gallodd mor belled eu dallu; eithr cyn tynnau allan y cleddyf ac a dwylo aflen ei drochi yn ymysgaredd eu brodyr, a dybient mai cymmwys oedd yn gyntaf chwilio am wirionedd yr achwymiad yn eu herbyn. Ac

et

er gogonian Israel, y cyngor heddychol a doeth hwn a dycciodd.

Cennadwri o'r ardderchoccaf yn awr a ddarparwyd yn ben ar ba un yr oedd gwr fanctaidd ei alwad a mawr ei awdurdod, yn llawn o bob teimlad naturiol a chrefyddol; *Phineas* mab Eleazar yr Archoffeiriad, ynghyd a dêg o Dywyfogion eraill, un o bob un o'r naw llwyth, yn gystai ac o hanner arall llwyth Manassef.

Mawr oedd syndod y Gileadiaid wrth dderbyn y gennadwri, a chlwed yr achwyniad yn eu herbyn. Ond y mae grym gwybodol ddiniweid wydd uwchlaw pob osf, a jaith calon gywyr yn rhagori ar bob ffræthineb. Mewn difrif appell i'r Nef am aniondeb eu hamcanion, heb ragfurfod, yngewiriau angerddol sy nhefslun, diarfogalant eu brodyr o bob eiddigedd.

“ Arglwydd Dduw y duwiau,” meddynt, (mewn gwrelogrwydd gwirionedd chwanegasant) “ Arglwydd Dduw y duwiau,”—Efe yr hwn a wnaeth y Nefoedd a'r Ddaear, yr hwn sy 'n chwilio 'r calonnau, ac yn adnabod meddyliau dirgelaif pob dyn—“ Efe sydd yn gwybod, ac Israel ynteu a gaiff 'wybod,” trwy ein dianwadalwch parhaus yngrefydd ein tadau, fod yr achwyniad hwn yn hollol gamsyniol.

Yna gan droi oddi wrth eu brodyr, â chydwybod lân, ac anrhaethiol fawredd meddwl, y meant yn cyfarch yr hollalluog Jehosa ei hun.—

O tydi Benlywydd yr holl Greadigaeth—Ein Duw ni, a Duw 'n tadau—Os mewn gwthrifel neu mewn camwedd yn dy erbyn di y codasom yr arwydd hyn o'n sel tu ag at Wladwriaeth Israel—
NA WAREDER NI Y DYDD HWN! Os oedd y meddwl mwyaf pellennig yn ein calon i godi * *allor wahanol*; os amcanasom mewn un ystyrrddian rheddedd yr allor gysegredig a selydlaist di ymhlieth ein brodyr y tu hwnt i'i Jorddonen, sel rhwymyn undeb ac addoliad ymmysg llwythau Israel—na fachluded

* Independent akar.

fachluded haul y dydd hwn arnom nes gwnelost ni yn nod o'th gyflawnder dialeddol yngwydd yr holl fyd!

Yn ol y cyfarchiad rhyfedd hwn i Arglwydd y Nef a'r Ddaear, y maent yn myned i hagddynt i ymresymmu a'u brodyr, gan ddweid eu bod mor belled oddi wrth amcanu neillduo, nac yn achos llywodraeth na chrefydd, a'u bod wedi adeiliadu 'r allor hon i ddiben llwyr wrthwyneb—“ I fod yn “ Dyst rhngom ni a chwi, a rhwng ein hiliogaeth “ ni ar ein hol, fel na ddywed o eich meibion chwi “ yn ol hyn wrth ein meibion ni, Nid oes i chwi “ ran yn yr Arglwydd.” Yr oeddym yn ofni rhag mewn oes i ddyfod pan fai i'n hiliogaeth ni groesi 'r Jorddonen i ddyfod i Aberthu i'r le pennodol, y byddai i'ch hiliogaeth chwi eu gwthio oddi wrth yr Allor, a dweid, am nad ynt yn byw yn y wlad lle mae pabell yr Arglwydd yn trigo, nad ydynt bobl iddo ef, nac a hawl ganddynt i freintiau Juddewig.

Ond tra safo 'r Allor hon, bydd ganddynt ateb parod. Gallant dd'wedid, “ Gwelwch lûn Allor “ yr Arglwydd yr hon a wnaeth ein tadau.” Pe na bu'sai 'n tadau o hâd Israel ni buasent mor awyddus i bortreiadu eich harferion a'ch ffurfiau chwi. Ni chawfach weled yn *Gilead* Allor, yn gyffelyb ymhob peth i Allor Duw yn Silo, oddieithr yn unig fod yr eiddom ni yn Allor uchel, “ neu fawr mewn golwg” i'w gweled o bell. A gall hyn eich perfwadio nad yw wedi ei hamcanu i aberthu ari ni (onitte ni fuasai ond tri chyfudd o uchder fel y mae 'n cyfraith ni yn cyfarwyddo) ond fel* arwydd-allor i ddysgu ein hâd dros syth eu bod o'r un genhedl a chwithau, ac a hawl ganddynt i'r un breintiau gwledig a chrefyddol.

Yr ymddiffynniad ardderchog yma a gymmododd yn ebrwydd y llwythau amrafaelus. “ A da oedd “ y peth yngolwg meibion Israel—hwy a “ fendithiasant Dduw,” au hattaiodd i dywallt “ gwaed

* Monumental altar.

“ gwaed eu perth’nasau, ac ni soniasant am fyned
 “ i fynu yn eu herbyn hwynt i ryfel, i ddifetha’r
 “ wlad yr oedd meibion Reuben a meibion Gad
 “ yn preswylio ynddi.”

Nis gallir cwrdd, yn holl ystori ’r Bibl, a thro mwy addysgiadol na hwn i ddeiliaid Ymerodraeth cāng, anffawd pa rai yw fod yr ysbryd drwg o anghydfod gwledig neu grefyddol yn eu mysg. Dymunaf ar Dduw i’r cymwysiad a wnelwyf yn awro honyn gael ei draddodi mewn llais uwch na tharan nes trywanu clust pob Brytwn; yn enwedig clustiau ’r cyfryw a fyfyridd ryfel a distryw i’w brawd-lwythau Reuben a Gad yn ein Gilead Americāaidd ni. A chwanegaf ddymuno ymheilach ar Dduw, fod i ni, y rhai ydym heddyw yn ystyried ein hunain yn sefyllfa ’r llwythau hynny, allu fel hwythau osod ein llaw ar ein calon mewn disrif appell at Dduw y duwiau am uniondeb ein bwrriadau tuag at holl wladwriaeth ein brytanaidd Isræl. Canys gwedi ’m galw i’r lle arbennig hwn, ar yr achlysur mawr yma, mi wn mai ’ch dymuniad yw fy mod uwchlaw pob *cymhelladau pliediol*, ac heb gym’ryd fy nhueddu na chan ffast na chan ofn. A da yw, nad oes achos, wrth dynnu ’r gydmariaeth, i aberthu na gwirionedd na rhinwedd.

Megis llwythau Reuben a Gad, nyni a ddewisafom ein hetifeddiaeth mewn gwlaid neillduedig oddiwrth ein tadau a’n brodyr; neillduedig, nid gan gornant ond gan faith genfor. Hefyd yr ydym yn dal yr etifeddiaeth hon trwy eglur *wreiddiol ammod*, yn rhai ini *hawl* yn holl freintiau naturiol a chynnyddol y lle, a chyfrangoaeth o holl freintiau ’n brodyr ymhob ystyr wledig a chrefyddol: Oddieithr yn unig fod gorsedd yr ymerodraeth, wrth ba un y mae plant y byd hwn yn ymgrymmu, i barhau yn eu plith llwy.

Yn ddibris o anghyfleusdra ’n lle, heb un rhith eiddigedd, heb ein gwasgi gan ofn, a chwedi ’n rhwymo

rhwymo gan gariad a chyd-fanteision, ni a droediasom gyd a'n brodyr yn llwybr anrhydedd ychwaneg na chant o flynyddoedd—Gan fwynhau hir ddedwyddwch, fel mai braidd y mwyhawyd y fath erioed gan neb pobl eraill. Gofalus am y llaw a'n hamddiffynnodd yn ein ieuengftid, ac uffudi bob cyflawn drefniad er priodoli iddynt hwy elw ein Marsiandaeth—eini golud a ddilysfodd iddynt trwy ddeng mil o ffrydiau, y rhai a helaenthent beunydd, gan beri i'r tlawd ganu, ac i wyneb y diwyd wenu, trwy bob goror o'u gwlad. A pha bryd bynnag y bygythau perigon ac y byddai llais Israel Frytanaidd yn galw 'n brodyr i faes y gwaed, nis gadawfom hwynt yn ddigymmorth, eithr cyfrannogasom o'u llafur, ac ymladd'fom wrth eu hyfyllys, “ hyd na safodd un o'u gelynion o'u blaen.” Ie hwynt hwy eu hunain a dystiasant o'n plaid, ddarfod ni ym hob peth wneithur nid yn unig ein rhan ond mwy na 'n rhan tuag at y llês cyffredin, a gollyngasant ni adref yn llwythog darian ac aur * fel gwobr am ein hangyffredin wasanaeth.

Hyd yn hyn, chwi welwch, y mae 'r gydmariaeth yn cyfatteb. Ond pa allorau, ~~deheb~~ a godasom ni i gyffroi 'n Brytanniaidd Israel, a pham y darsu i gyhonneidfa 'n brodyr ymgalgu yngbyd i'n herblyn? Paham y mae eu trefnus fyddynoedd eisioes yn gorchuddio 'n gwasdadedd? A ystyriant hwy ddim o'n hachos, a gwrando 'n cwyn?

“ Arglwydd Dduw y duwiau—Efe sydd yn gwybod,” a'r holl fyd cylchynol a gaiff etto wybod, fod pa allorau bynnag a godasom yn America mor belled oddi wrth ddiyfryu, a'u bod wedi eu codi gyd â golwg bendant i barhau enw a gogoniant yr allor honno, ac eisteddle ymerodraeth, yr hon a adawfom

* Yr arian a roddees *Parliament* Brydain ini fel taliad am ein hymdreichiadau yn y rhyfel diwetha; tebyg i'r blyn a wnaeth Josua i'r ddau lwyth a hanner yn niwedd ei ryfleoedd ei.

adawfom o'n hol, gan ddymuno ei pharhad
tragwyddol ymysg ein brodyr yn y Fam-wlad!

Gan gyfrif ein perthynas iddynt hwy ein
gwynfyd pennaf; gan fawrhau y rhagluniaeth a'n
cododd o'r un gwaedoliaeth; gan ymogoneddu
ddarfod pan cadd y byd newydd ei ddosbarthu rhwng
teyrnasoedd yr hen, i'r than ore o hono
syrthio i feibion Protestaniaid a chenhedl rydd;
gan chwennych addolu wrth yr un allor a hwynt;
gan garu eu trefniadau i ormodedd; gan hoffi'n
ddireswm y dull hynny o happyrwydd gwledig a
chrefyddol, i amddiffyn pa un yr aberthasant hwy
o oes bwy gilydd; gan fod yn barod yn waftad,
er pob perigl, i ddangos y ffyddlondeb mwyaf
diyfog i'n Brenin, fel cenolbwyt mawr ein
hundeb, ac ymgeleddwr ein breintiau cyffredin:—
Meddaf, ar yr egwyddorion, a chyd â'r dibenion
yma, barnafom mai 'n dledswydd oedd adeiliadu
allorau, neu, * Osodiadau, yn America, mor
nesed ac y gallem yn ol y portreiaid Brytanaidd.

Gan nas gwerthasem erioed ein genedigaeth-
faint, yr oeddem yn ystyried fod hawl genym i
holl freintiau ty ein tad—“ i fwynhau tangnafedd,
rhydd-did a diogelwch; i gael ein llywodraethu,
fel ein brodyr, wrth ein cyfreithiau ein hunain
ymhob peth a berthynai 'n briodol ini, ac
offrymmu'n haberthau wrth allor yr ymerodraeth
Frytanaidd; gan haeru fod pob addoliad ond un
gwirfodd yn eilunaddoliad, ac nad oes gan neb
dan y nef, hawl i sefyll rhngom ni a'n grasuol
Frenin, i fesur ein ffyddlondeb, neu genniattau'n
meddianau *heb ein cydfynniad*.

Dyma 'r egwyddorion a dderbyniasom oddi wrth
y Brytaniaid eu hunain. Ped ymadawsem a
hwynt cyfrifasid ni 'n fasardiaid ac nid meibion,
yn alludion ac nid brodyr.

Yr allorau a adeiliasom ni, ynte, nid ydynt uchel
neu + gyd-ymgais allorau i greu eiddigedd, ond
arwyddion isel o'n hundeb a'n cariad: *gwedi eu
hamcanu*

Hamcanu i ddwyn myrddiynau, eto heb eu geni, o bob congl o'n eang ardaloedd, i ymgrymmu wrth y fam-allor fawr o rydd-did Brytanaidd; gan berchi 'r wlad o ba un y tarddasant, pan fo eu miloedd digyfrif hwy yn llawer amlach na'r eiddo hi.

Ein dymuniad oedd fod "Tyf parhaol rhwng ein brodyr a ni;" fel pe digwyddai, mewn amser i ddifyfod, i'w meibion hwy ddwud wrth yr eiddom ni—"Nid oes i chwi ran" yngenedigaeth-sraint Brytaniaid, a cheis is 'u gwthio oddi wrth Deml rhydd-did pan ddelont i addoli yno, y byddo ganddynt hwythau ateb parod—"Gwelwch lûn yn allor a wnaeth ein tadau." Gwelwch eich gosodiadau gwladol a chrefyddol eich hunain, ac yna ystyriwch drefn y llywodraeth, a chorff y cyfreithiau a gyfansoddwyd gan ein tadau ymhob rhan o America! A all'sai y rhai 'n fod mor gysattebol i'r eiddo chwi, oni buasai eu bod hwy 'n etifeddu'r un ysbryd, a chwedi tyfu o'r un cyff a chwithau.

Hyd yn hyn hesyd, chwi welwch, fod y gydmariaeth fyih yn cyfatteb, ac 'rwy 'n barnu nas gellir ei galw 'n wyrdroi 'r testun, os addefwch y gall prif allu ymerodraeth, pa un ai* dwyfolt llywodraeth, neu + deyrn-llywodraeth, neu beth bynnag fyddo 'i natur, gael ei ddarlungio ar ddull un allor gyffredin, wrth ba un y mae y deiliaid oll i dalu eu cyflawn ddefosiwn.

Ond fe ddwadir ein bod wedi ymadael a rheol gyntaf ein dyledswydd, a gwrthod talu teyrnged wrth allor fawr yr ymerodraeth Frytanaidd. Ac i hyn fe atebwyd, fod hyd yn oed ein gwrthodiad yn brawf digonol o'n parch i'r allor ei hun. Nagê, fe haerir gan y rhai yr achwynir arnynt am y trofedd hwn, mai mewn flam o iddigedd duwiol pan y galwd arnynt dan rith trethau anghyfreithlon, breintiau ac ammodau drylliadig, i addolu eilunod yn lle gwir dduwdod, y darfu

B

iddynt

* Theocracy.

+ Monarchy.

iddylt eu dryllio 'n chwilsrew, neu eu bwrw i waelod y ce'nfor.

Dyma 'n fyrr sefyllfa 'r ddadl o'r ddau tu. Ac oddi yma y mae fod, y foment arswyddus hon, hen gyfeillion a cheraint, yn sefyll yn barod i'r canlyniadau mwyaf alaethus.

Yma y mae pwys fy matter ym mron sy ngorchfygu; ond na thybiwch fy mod am ddiffodd y gwrefogwydd ardderchog sydd y fynud hon yn cynheisu pob mynwes yn bresennol. Eithr trwy foreuol adnabyddiaeth o amryw o honoch, mi a wñ fod eich egwyddorion yn bur, a'ch hynawfedd i'w gydmaru i ddim ond i'ch cariad at eich gwlad; y mae 'n sicr genyf, gan hynny, y goddefwch y deigr hallt, yr hwn y rhaid i bregerhwr efengyl y cariad yn awr ei dywallt dros y golygiadau hyll sydd o'n blaen—Mawr a dwfn drallod yn barod i dreiddio i bob cwrr o'n gwlad! Myrddiynau i'w galw o'u heddychol drigfannau “gan sain yr “udgorn ac oerlais rhyfel! Gwisgoedd wedi eu “trochi mewn gwaed,” ac hyd yn oed buddugoliaeth yn gweini achlysur i wylo am gyfeillion a chyfnelyfaid wedi eu lladd! Y rhai hyn ynt olygiadau athrist; gan hynny chwi a gyd-ymdeimlwch a mi yn yr anhawsdra yr wif yn ‘nawr yn llafurio dyno—gwedi 'm gadel gan fy nhefstan, a'm gollwng i wylo wrthyf fy hun, na thycciodd un *Phineas* yn y fam-wlad; nad oes un Gennadwri * o ddynion mawr a duwiol wedi ei threfni, i chwilio i wirionedd ein hachos, ac i attal y Cleddyf dinystriol rhag tywallt gwaed perth'nasau. Yr wif yn galaru fod, yn y tro galarus hyn, dynerwch *Juddewig* er cywilydd i gymmwynnafgarwch *Cris'nogion*.

“ Ein brodyr, ty ein tadau, hwynthwy a “ alwasant lu i'n herblyn. Pe gelyn a wnaethau “ felly gallafem, o ddigwydd, ei oddef. Eithr “ tydi

* Yma y mae 'r awdur yn cydnabod fod amryw o wyr enwog wedi ymneigio tuaq at gymmodi; ond y mae 'n galaru am nas gwrandawyd arnynt.

“ tydi ddyn fy nghydradd, sy fforddwr a'm
 “ cydnabodd; y rhai oedd felus genym gyd-
 “ gyfrinachu, ac a rodiason i dŷ Dduw ynghyd !”
 Neu ped fuasai er un rhyw hanfodol leiad i'r
 wladwriaeth yn gyffredin, gosodasem ein dwylo
 ar ein geneuau, gan grymmu ufudd-dod drwy 'n
 harferol ddisdawrwydd. Ond am URDDAS a
 * GORUCHAFIAETH ! Beth ydynt hwy pan eu
 cymmarir a'r lles cyffredin, cyflawnder cyffredin,
 ynghyd a natur a gosodiad y llywodraeth ? Gwir
 urddas yw llywodraethu *rhyddion* .nid caethiyn; a
 gwir oruchafiaeth yw rhagori mewn daioni.

Mae 'n bryd, a chwedi pryd, i bobl luosog a
 deallus beri i *gyfod* roi lle i *fylwedd*, a *ffug anrhydedd*
 i *wir ddiogelwch* ! Siampau a + cleimiau amhen-
 nadol ydynt bethau rhy ddisiadl i ddryllio
 ymerodraeth gadarn. A oes unrhyw ddoethiñeb,
 un ddyfais synhwyrol ac anrhydeddus, tuag at
 aduno ei haelodau, fel unig ddiogelwch i hydd-did
 a phrotestaniaeth; yn hytrach na chadarnhau,
 trwy 'n blin anghydfod, y teyrnasoedd hynny
 ag sydd elynion rhydd-did, gwirionedd a
 thosturi ?

Ffurio 'r cyfryw ddyfais, a gweled trefedigion o
 Frytaniaid yn goresgyn y tiroedd meithion hyn,
 gan orfoleddu ym mreintiau cyffredin gwyr
 breiniol, ac ymdebygu i'r Fam-wlad ymhob
 rhagoriaeth—sydd swy o ogoniant na bod yn
 Ormesdeyrn ar holl genhedloedd y byd.

Ond ni'ch blinad ymhellach a galenadau diles
 am bethau a allefod eu gwneuthur. Y Cwestiwn
 yn awr yw—gan nas gwnaed hwynt, A raid ini
 ymadael yn dawel a'n genedigaeth-fraint neu, a
 Siartr fawr ein breintiau, y rhai y mae genym
 hawl iddynt, nid yn unig trwy etifeddiaeth, ond
 trwy eglur ammodau ein + trefedigaeth ? Dywedaf
 na atto Duw ! Canys dymunwn, yma yn neillduol,
 allu llefaru mor amlwg ag nas gallo na'm
 B 2 hegwyddorion

* Supremacy.

+ Claims.

‡ Colonization.

egwyddorion fy hun na'r eiddo 'r Eglwys y perthynaf iddi gael eu cam ddeall.

Yn nechreuaad y Dadl mawr hwn, barnafom mae 'n dyledswydd oedd peidio lledu y rhwyg, a helaethu 'r anfodlonrwydd; er mae 'n disrif ddymuniad oedd iachau archollion y wladwriaeth, a dangos trwy 'n hynawfedd nad ydym yn ehwennych trollodu 'r Fam-wlad, ond rhoi cyfle iddi, achub ei hun a ninnau cyn ei myned yn rhwng ddiweddar: etto gan ein bod yn gwybod fod ein breintiau gwladol ac eglwysig wedi eu hanwanol gyffyltu, nid oes gennym, ac nis dymunem, un elw arall heblaw yr eiddo 'n gwlad; ac nis gallwn roi annogaeth i esgeuluso 'i hachos. Crefydd a rhydd-did a safant neu a sylhiant *ynghyd* yn America. Ein gweddi yw ar iddynt sefyll yn dragwyd.

Nid yw *parhaol oddefiad tra is yn un o egwyddorion Eglwys Loegr*. Pan gafodd ei goleuadau disgleiriaf yn yr oes a aeth heibio, eu cymhell i amddiffyn y Llys-athrawiaeth o awdurdod anghyfreith—a lefasant hwy allan yn fradwraiddn—“*Heddwch Heddwch*” pan nod oedd *Heddwch?* Oni ddarfu iddynt hwy sefyll dros y llywodraeth sefydledig, a dwud yn wyneb Mawrhydi “nas gallent hwy fradychu rhydd-did y wladwriaeth,” a bod diogelwch y Pen-llywyd yn gynnwysedig “yn ei waith yn llywodraethu yn ol y gyfraith?” Oni ddarfu i’w siampl hwy a’u dioddefiadau canlynol, enynn a fath fflam ag a oleuodd yr holl wlad, ac a ddug i mewn y drefn ardderchog o wladol a phersonol rydd-did, yr hon a sefydlwyd* ynghyd yn ewidiad y llywodraeth? Onid yw egwyddorion proffesedig ein disinyddion mwyaf enwog, oddi ar yr amser hwnnw, yn erbyn dyrchafu 'r Eglwys uwchlaw 'r Wladwriaeth; yn eiddigus am freintiau 'r deyrnas, ymrouss am frenhinoedd protestanaidd, ffatriol i ddiwygiad, a chwennychol i gynnal rhydd-did crefydd? O’s digwyddodd fod rhai

* The Revolution.

rhai o wahanol dymherau, ni ddylai un-gymdeithas o grifnogion fod yn attebol am wyrni a beiau personau neillduol.

Yr athrawiaeth o * hollol *anwrth'nebiad* a gadd ei llwyr ddirmygu ymmysg pob pobl rinweddol. Mae 'r ysbryd rhydd yn codi yn ei herbyn, a rhaid iddo gael ymhell ei ddarostwng, a llyngcu hyd yn oed gwaelodion halogrwydd cyn y gallo odde 'r meddwl, "nas dylai corph o bobl ormesedig, mewn unweidd anfodloni i'r farhaad." Ond nid yw tynnu 'r llinin, a dangos pa le y mae goddefiad yn terfynu a gwrth'nebiad yn dechrau, yn orchwyl perthynol i un o weinidogion Crist, yr hwn ni roes ini un rheol yn hyn yma, ond ei adael i deimlad a chydwybodau 'r gorthrymedig. Canys pan ddel gwaesfâau a dioddefiadau, pan fo pwys llywodraeth wedi myned yn anniodd-fol, fe fydd dynion yr barod i ffoi at + osodiad y llywodraeth am ddiogelwch, ac, ail feddiannu, os gallant yr awdurdod honno, yr hon nis darfu iddynt erioed ei rhoi ymaith, oddi eithr yn unig iw harferyd er mwyn y lles cyffredinol. Nid oes gan † gyflasfared y pulpid ddim i wneuthur yma. Nid yw Duw oll, yn ei drefn o lywodraethu 'r byd, yn caethiwo rhydd-did; a'i air ei hun a ddirmygid, neu, a gyfrifid yn cael ei wyrdroi, pe 'i dygid i wrth-ddwud ei lais ynghalonau dynion.

Y mae 'r cymhwysiad o'r egwyddorion hyn, fy mrodyr, yn awr yn hawdd, a rhaid ei adael i'ch cydwybodaau a'ch teimlad chwi. Yr ydych yn awr yn ymosod yngylch un o'r gorcheslion ardderchoccaf ag sydd bosibl i feibion rhydd-did gael eu galw iddynt.

Yr ydych yn ymdrechu dros yr hyn ag ydych chwi 'n olygu eich cyfreithlon freintiau, a thros y parhaus lefyddliad o'r ammodau hynny, ar ba

* Absolute non-resistance. + The constitution.

† Casualty.

rai y gall y gwledydd hyn gael eu haduno dros
fyth a'r fam-wlad.

Edrychwch yn ol, gan hynny, yn bardius edrychwch yn ol ar yr amferoedd rhinweddol a chlodfawr gynt. Edrychwch yn ol ar yr amcanion mawrion ag oedd yngolwg eich hynafaid wrth groesi cenfor maith, a d'od i breswylio yma. Gelwch i'ch côf eu llafur a'u lludedd a'u diwydrwydd hwy, a phoed i'w grafol ysbryd eich gwroli yn eich holl ymroiadau.

Edrychwch hefyd ymlaen ar genhedaethau i ddyfod. Golygwch syrddiynau a myrddiynau i darddu allan o'ch lwyneau, y rhai a enir yn rhyddion neu 'n gaethion, yn ol fel y gwelo Duw, yn awr, yn dda i lwyddo neu ddiddymu 'ch bwriadau. Ystyriwch y gall mae arnoch chwi y mae 'n gorhwyys p'un a fydd i'r wlad eang hon, mewn oefodd i ddyfod, gael ei llanw a'i haddurno a phobl rinweddol a doeth; yn mwynhau RHYDD-DIDAI holl berthynol fendithion, yngyd â CHREFYDD yr Iesu yn anlygredig yn ol yr ysgrythurau; ai ynta gael ei gorchuddio a rhywogaeth o ddynion gwaedach na gwylltiaid yr anialwch, am eu bod hwy unwaith "yn gwybod " y pethau a berthynent i'w happufrwydd a'u " heddwch, ond wedi goddef iddynt gael eu " cuddio oddi wrth eu llygaid."

A thra f'och yn edrych yn ol ar yr hyn a aeth hebio, ac ymlaen ar yr hyn sydd i ddyfod, nac anghofiwch chwaith m'r attolygas arnoch, i edrych hefyd i fynu tu ag at Dduw y duwiau—Craig eich Jachawdwriaeth. "Fel y clai yn llaw'r crochenydd," felly y mae'r holl genhedaedd yn llaw'r JEHOFA tragwyddol! Efe sy 'n dyrchafu ac efe sy 'n darostwng—"Efe sy 'n gwrth'nebu'r " balch ac yn rhoi gras i'r gostyngedig—Traed " ei saint a geidw efe—yr annuwion a " addistawant mewn tywyllwch, canys nid trwy " nerth y gorchfyga gwr."

Golygiadau disglaer yr Efengyl; trwyadl barch i Jachawd

3 Jachawdr pechaduriaid; usudd-dod cydwybodol i'w ddwyfol gyfreithiau; ffydd yn ei addewydion; a gobaith diysgog o fywyd tragwyddol trwyddo ef, yw 'r unig bethau a all gynnal i fynu galon gwr mewn adsyd yn gystal a hawddfyd. Mae mor bosibl " i daro tân o'r ia" a dwyn diyfogrwydd a mawisfydigrwydd allon o feiau. Ond y dyn da, yr hwn sydd mewn heddwch a Duw pob heddwch, nid edwyn ofn, oddi eithr yr ofn o'i anfodloni ef, llaw yr hwn a orchuddia 'r cyfawn, " fel nas rhaid iddo ofni rhag y saeth " a ehedo 'r dydd, na rhag y dinystr a ddinystrio " ganol dydd; canys wrth ei ystlys y cwyp mil, " a dengmil wrth ei ddeheulaw, ond ni ddaw yn " agos atto ef; oblegid efe a orchymyn i'w " angylion am dano ef i'w gadw yn ei holl " ffyrdd."

Yn yr hollalluog Dduw, gan hynny, trwy ei fendigedig Fab, rhoddwch eich cadarn hyder; ond na ddisgwylwch y bydd pob dydd i chwi yn Ddydd o Iwyddiant a gorfoedd. Mae ffyrdd rhagluniaeth yn rhy ddyrus i ddyn eu holrhain. Trugareddau a ymddangosant weithiau yn rhith dioddefiadau; a gall treigliadau ein tyngedfenninnau, wrth gyfodi yr adail hon o ddedwyddwch a gogoniad America, fod yn amrafael a gwahanol.

Ond na ddiglonned hyn chwi. Yn hytrach cadarnhaed chwi a gwreslogrwydd duwiol—gan gredu 'n wasdad, mae Achos Duw ar y ddaear, yw achos rhinwedd a rhydd-did; ac nad oes dan y nef olwg mwy ardderchog na llu o feibion rhydd-did, mewn ymddibynniad ar Dduw, yn ymrwyma i'w gilydd i ymdrechu yn erbyn pob anhawdra a pherigl tuag at gynnal eu genedigol a chyfreithlon freintiau, a thuag at drosglwyddo 'r cyfryw yn bur a dilwgr i'w hiliogaeth."

Dyma 'r egwyddor a gyfrôdd gedym y prif oesoedd; a ddyrchafodd eu henwau i uchder bri, ac a lanwedd yr holl oesoedd canlynol o'u hybarch godi:

glod: A thyma 'r egwyddor hefyd a raid eich cyffroi chwithau, os mynnech i'ch henwau gyrraeddid cenhedlaethau i ddyfod, a disgleirio yn llechres anrhydedd: a thra bo 'r egwyddor hon yn eich tywys, byddwch barod i ganlyn—p'un bynnag ai i fywyd ai i angau.

Tra f'o'ch yn ymdrechu dros rydd-did, gwnewch hynny yn nhymmer ac urddas gwyr breiniol, yn ddewr a chadarn, ond heb lid nag ymddial, hyd a g y caffoch ras i gynnorthwyo gwendid natur. Cyfrifwch ei fod yn dro happus, os rhaid i'r cyfryw ymdrech ddigwydd, ddarfod i Dduw ei attal hyd yn awr, pan yw 'n gwlad wedi ei thrwsio a dynion llawn o fel yn ol gwybodaeth; pan y mae 'r celfyddydau a phob rhyw ddysgeidiaeth yn blannedig yn ein plither sicrhau cyflawnder parhans o'r fath ddynion; pan nad yw ein moesau gwedi eu llygru ymhell gan drythyllwch, gloddest neu afradlondeb; pan y mae 'r egwyddorion a wrth safodd drais yn yr amser anrhydeddusaf o fewn haens *Lloegr*, yn eiddom ni megis trwy etifeddiaeth briodol; a phan yr ydym yn sefyll ar ein tir ein hunain, a phob peth sydd anwyl o'n hamgylch, i'n hannog i bob teilwng ymdrech dros ein gwlad. Yn y fath amgylchiadau, ac oddiar y fath egwyddorion, pa ryfeddodau, pa orchestion ardderchog nis cyflawnwyd!

O'm rhian sy hun yr wyf o farn ddiysgog fod gan Dduw ryw fwriadau mawrion a grasol tu ag at y gwledydd hyn, y rhai nis dichon un gallu neu ddyfais ddynol syth eu diddymmu.

Caethiwus neu gamfymniol felurau llywodraeth a allant dros dro ein gorhrymmu, ac ysgafwydd flin attol ein cynnydd; ond os nyni a ddaliwn ein rhinwedd; os hyfforddwn ein plant yn egwyddorion Rhydd-did; os gochelwn faglau gloddest, gwobrau a halogrwydd; se gyfyd **ANIAN AMERICA** o hyd yn fuddugawl, a hynn ym y fath allu ag a fo o'r diwedd yn anwirth neboli. 'Fe fydd y wlad hon yn rhydd—nag è, eithr dros oesoedd.

ofoedd i ddyfod, hi a fydd yn ddewisioł orsedd *Rhydd-did*, y *Celfyddydau a Nefol Wybodaeth*; y rhai ydynt yn awr naill ai 'n methu neu 'n feirw yn y rhan fwyaf o wledydd yr hen fyd.

I ddiweddu, gan fod grym pob gwladwriaeth, dan Dduw, yn gynnwysedig yn eu HUNDB; cyd-ddygwch chwithau a gwendidau, ac hyd yn oed a gwahanol feddyliau 'ch gilydd, mewn pethau nad ydynt hanfodol i'r prif bwngc. Mae tymherau dynion yn dra gwahanol. Mae rhai yn fywiog a theimladwy yn holl ysgogiadau 'u meddwl, yn enwedig yn yr hyn a berthyn i lès eu gwlad; a chan hynny yn barod i ennyn allan yn ffiam ar bob ymddangosiad o berig!. Eraill eilwaith, mor bur eu bwriadau, ac a chariad anorhfygol at eu gwlad, yn rhy wrwl i'w brawychu a niwl rhagfarn, neu, i'w cyffroi i nwydau ynfyd-boeth gan awelon afiach digofaint, a dybiant yn ddyledswydd arnynt i bwyso canlyniadau, a myfyrio 'n gyflawn ar y moddion mwya, tebygol i fwynhau 'r dibennion cyffredin. Fe ddylai 'r ddau fath hyn o ddynion gyd-ymddwyn a'u gilydd; canys y mae 'r naill a'r llall yn ewylli!wyr da i'w gwlad.

Cenniatewch imi chwanegu hyn ymhellach, nas gall fod *undeb* mewn gwladwriaeth heb drefn a chyflawn * raddiad. Pa mor gyd-radd bynnag y b'och mewn achofion eraill, mae hynny 'n darfod yn y sefyllfa unol a chymdeithasol; ac y mae pob un yn rhwym i gadw y lle a'r fwydd a drefnwyd iddo; yr hon rwymedigaeth sydd ynghyfrif pob dynion rhinweddol a deallus yn gadarnach na'r holl rwymau ag sydd bosibl i ddyfais ddynol eu dych'mygu. Gwell fuasei peidio llefaru gair ymhlaid eich gwlad, na'i bradychu o eisiau *undeb*; neu adael y gwyr teilwng a anturiafas eu bywyd a'u meddiannau dros y llea

* Subordination.

y lles cyffredin, i ddioddef, neu sefyll yn ddigymorth.

Yn ddiweddaf, ymddiffnwch gyfreithiau 'ch gwlad, hyd eitha 'ch gallu, ar bob achos. Mewn ymdrech ymhlaid rhydd-did, ystyriwch fath gamwedd syddau, i oddef i un gwr rhydd gael ei ddirmygu neu ei niweidio yn ei rydd-did hyd ag y galloch chwi ragflaenu hynny.

Wrth anadlu a gweithredu 'n llyn—gallwn gyd â'r prophwyd GANU—

“ Nac ofna di ddaear! Gorfoledda a llaweny-
“ cha; canys yr Arglwydd a wna fawredd. Nac
“ ofnuch anifeiliaid y maes, canys tarddu y mae
“ porfeidd yr anialwch—y pren a ddwg ei ffirwyth
“ —y ffigyfren a'r winwydden a roddant eu
“ cnwd.”

Wrth anadlu a gweithredu 'n llyn, gallwn
hefyd gyd â'r prophwyd WEDDIO—

“ ARGWYDD trugatha wrthym; wrhyt y
“ disgwiliason. Bydd fraich ini bob bore, a'n
“ hiechydwriaeth yn amser cystudd—Ymddiried
“ rhai mewn cerbydau, a rhai mewn meirch,
“ ond nyni a gofwn enw 'r Arglwydd ein Duw—
“ Gobaith Israel a'i gediwad yn amser adsyd—i
“ ydwyt yn ein myig ni a' th enw diae'wir a'nom,
“ NA AD NI—Dyro ini un galon ac un ffodd
“ i' th ofni byth, er lles ini, ac i'n meibion ar
“ ein hol. Disgwiliason am heddwch, ac nid
“ oes daioni, ac am amser iachâd ac wele ni
“ mewn blinder—Etto nyni a ymddiiedwn yn
“ yr Arglwydd byth, o herwydd yn yr Arglwydd
“ Dduw y mae cadernid tragywyddol—Efe a
“ rwyma etto y rhai yfslig eu calon, ac a gylfa
“ bob galarus”—Boed itti felly o Arglwydd eu
“ cysuro a'u diwallu fel y gorfoleddo yr esgyrn a
“ ddiylliaist. Cynnyseidda ni ag ystyriaethau
“ dwys o werth ein breintiau cyfreithlon! Bydded
“ i ysbryd doethineb a rhinwedd gael ei dywallt
“ a'nom oll; a phoed i'n cynnyrcholwyr, y rhai a
“ appwyntiwyd i drefnu a phenderfynu mesurau
“ cyhoeddus

cyhoeddus, gael eu hyfforddi i'r cyfryw ag a
 welost di 'n dda, yn dy ben-arglwyddiaethol
 ddaioni, eu gwnud yn effeithiol i iachâu 'r
 ymerodraeth, ac aduno 'i haelodau mewn un
 cadarn rwymyn o undeb a dedwyddwch cyffredin!
 Cenniathâ hyn o Dad er mwyn 'dy Fab Jesu
 Grist; i ba un gyd â thi a'r ysbryd Glân, y bo 'r
 gogoniant, yr Anrhydedd a'r gallu, yn awr ac yn
 wes oesoedd! AMEN.

D I W E D D.

N O T E.

What the author hints in page 20, of his sermon, and page 11, of this translation, may be elucidated by specifying the troops raised, and monies reimbursed to the Colonies. I shall instance only in,

| | <i>Troops raised.</i> | <i>Reimbursed.</i> |
|---|---|---|
| | | <i>£. s. d.</i> |
| Massachusetts | 7,000 | 183,649 2 7 |
| Connecticut | 5,000 | 28,863 19 1 |
| New-Hampshire | 2,000 | 16,385 13 4 |
| Rhode-Island | 1,500 | 6,322 12 10 |
| Captain Gebson, a volunteer | | 547 15 0 |
| <hr style="border-top: 1px solid black; border-bottom: none; border-left: none; border-right: none; margin: 5px 0;"/> | <hr style="border-top: 1px solid black; border-bottom: none; border-left: none; border-right: none; margin: 5px 0;"/> | <hr style="border-top: 1px solid black; border-bottom: none; border-left: none; border-right: none; margin: 5px 0;"/> |
| Total | <u>15,500</u> | <u>235,719 2 10</u> |

It must be observed farther, that the reimbursement was in consequence of the following message from our late good King to the House of Commons, viz.

Die Jovis 26^o Aprilis, anno 32^o Georgii secundi Regis, 1759.

“ **GEORGE REX.** His Majesty being sensible
“ of the active zeal and vigor with which his
“ faithful subjects of NORTH AMERICA have
“ exerted themselves, in defence of his Majesty’s
“ just rights and possessions, recommends it to
“ this House to take the same into consideration,
“ and to enable his Majesty to give a proper
“ compensation for the expences incurred by the
“ respective provinces, in the levying, cloathing
“ and paying of the troops raised by the same,
“ according as the *active vigor* and *strenuous*
“ *efforts* of the respective provinces shall justly
“ appear to merit.”

G. R.